# Arolwg Masnach Cymru

# Atodiad arolwg

## *Tudalen lanio*

**Croeso i'r Arolwg Masnach i Gymru 2021.**

Dyma'r pedwerydd arolwg masnach sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r llifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Rydym wedi comisiynu sefydliad 1mchwil annibynnol, IFF Research Ltd, I gasglu'r data hwn ar ein rhan. Bydd unrhyw ddata a rowch yn cael ei ddal fel data masnachol cyfrinachol. Bydd pob data sy'n cael ei ddarparu'n cael ei ddal yn ddiogel.

**I gael mynediad i'r arolwg, nodwch y cod mynediad a ddarperir yn eich llythyr gwahoddiad:**

| | |
|---|---|
| YSGRIFENNU MEWN COD MYNEDIAD | |

**Hysbysiad Preifatrwydd**
Gallwch ddarllen mwy am yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn **yma.**

### Arolwg Masnach Cymru

**Ynglŷn â chwblhau'r arolwg:**

- Clicio 'Cadw a pharhau nes ymlaen' i gadw eich data os byddwch eisiau dychwelyd i'w gwblhau nes ymlaen.
- Os byddwch yn mynd i drafferth, gallwch ffonio ein llinell gymorth neu anfon e-bost atom. Cliciwch 'Cysylltu â ni' ar waelod y dudalen i weld y manylion hyn.
    - Am fwy o wybodaeth, gallwch gyfeirio at y Cwestiynau Cyffredin sydd i'w cael ar waelod y dudalen.
    - Llenwch yr holiadur hwn ar sail cyfrifeg croniadau (anfonebau a godwyd), yn hytrach na sail cyfrifeg arian parod. Defnyddiwch y botwm 'English' i newid i'r Saesneg os hoffech newid yr Iaith.
      Os byddwch yn cael anhawster cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein hwn oherwydd ei lefel o hygyrchedd, gallwch gwblhau'r arolwg dros y ffôn gyda chymorth tîm Cymorth Arolwg IFF Research: 0300 0259 000.

- **Gweithrediadau yng Nghymru**
- Gofynnir i chi ddarparu data ar gyfer gweithrediadau (neu ganghennau) y busnes yng Nghymru
- Os oes gan y busnes sawl cangen ledled y DU, darparwch y data cyfanredol ar gyfer canghennau Cymru sy'n adrodd i chi yn unig
  Os oes gennych nifer o weithrediadau yng Nghymru, yna dylai'r wybodaeth a rowch chi gynnwys pob un sy'n adrodd i chi.

Os ydych yn masnachu nwyddau neu wasanaethau gyda **rhannau eraill o'ch busnes** sydd y tu allan i'ch gweithrediadau yng Nghymru sy'n derbyn sylw yn yr arolwg hwn, dylech gyfrifo'r rhain fel gwerthiannau/pryniannau i gwsmer annibynnol, a rhoi'r gwerth yma iddo. Os na allwch chi roi'r ffigurau hyn ar y sail yma, rhowch werth iddyn nhw fel cost trosglwyddo.

**Byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau'r busnes yng Nghymru, gan gynnwys:**

- Gwerth gwerthiant/allforion ar gyfer 2021

- Gwerth pryniannau/mewnforion ar gyfer 2021
- Ar gyfer pob un o'r uchod:
    - Y gwerth yn ôl ardal ddaearyddol (Cymru, Yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon, gwledydd yr UE i gyd, gwledydd y tu hwnt i'r UE i gyd)
    - Y 5 nwydd / gwasanaeth sy'n cael eu masnachu'n bennaf
    - Y 5 gwlad o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig rydych yn masnachu gyda'n bennaf

**Os nad oes gennych wybodaeth fanwl gywir sydd ar gael yn hawdd i chi, rhowch eich amcangyfrif gorau.**

Bydd yr arolwg yn gofyn i chi am ddata 2021. I wneud hyn, byddai'n well gennym ddata ar gyfer y blynyddoedd calendr:

- 1 Ionawr 2021 hyd 31 Rhagfyr 2021

Os yw'r wybodaeth hon yn anodd ei chyrchu, rhowch ddata ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 os gwelwch yn dda.

# Arolwg Masnach Cymru

# Trosolwg

## *1. Cefndir i'r busnes*

a) Ymhle mae eich pencadlys? (Cymru/ Lloegr/ Yr Alban/ Gogledd Iwerddon/ Arall)
b) Beth oedd nifer y gweithwyr cyflogedig ar gyfer eich busnes?

Mae gweddill yr arolwg yn ymofyn am ddata am <u>weithrediadau (neu ganghennau) y busnes yng Nghymru</u> yn unig.

## *2. Gwerthiannau & allforion*

a) Yn 2021, a wnaeth gweithrediad y busnes yng Nghymru unrhyw werthiannau (gan gynnwys allforion) nwyddau neu wasanaethau?
b) Yn y broses o werthu’r nwyddau hynny, a oes unrhyw wasanaethau a ddarperir ochr yn ochr â’r cynnyrch yn rhan o werthiant y nwydd? Er enghraifft, tanysgrifiad parhaus ar gyfer cynnal a chadw a thrwsio, neu hyfforddiant, neu danysgrifiad meddalwedd perthnasol fel storio ar y cwmwl gyda ffôn.
c) Beth oedd cyfanswm (£) eich gwerthiannau nwyddau, gwerthiannau gwasanaethau, a gwerthiannau cyfan' ar gyfer 2021?

**Nwyddau:**

a) Dewiswch y cyrchfannau ar gyfer y werthiannau nwyddau yn 2021 (Cymru, gweddil y DU heb gynnwys Cymru, gweddill yr Undeb Ewropeaidd/ gweddill y Byd)
b) Beth oedd gwerth (£) eich gwerthiannau nwyddau yn 2021 ar gyfer pob lleoliad a ddewisir uchod (Cymru, gweddil y DU heb gynnwys Cymru, gweddill yr Undeb Ewropeaidd/ gweddill y Byd)
c) Os oedd gan y busnes werthiannau nwyddau i weddill y DU ar gyfer 2021, dewiswch pa leoliadau yn y DU yr aethant iddynt (Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon) a gwerth (£) gwerthiannau ar eu cyfer
d) Yn 2021, a lwyddodd gweithredoedd y busnes sydd wedi eu seilio yng Nghymru i werthu unrhyw nwyddau amgylcheddol?

**Gwasanaethau:**

a) Dewiswch y cyrchfannau ar gyfer gwerthu gwasanaethau yn 2021 (Cymru, gweddil y DU heb gynnwys Cymru, gweddill yr Undeb Ewropeaidd/ gweddill y Byd)
b) Nodwch gwerth (£) ar gyfer gwerthu gwasanaethau 2021 ar gyfer pob lleoliad a ddewiswyd uchod (Cymru, gweddil y DU heb gynnwys Cymru, gweddill yr Undeb Ewropeaidd/ gweddill y Byd)
c) Os oedd gan y busnes werthiannau gwasanaethau i weddill y DU ar gyfer 2021, dewiswch pa leoliadau yn y DU yr aethant iddynt (Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon) a gwerth (£) gwerthiannau ar eu cyfer
d) Yn 2021, a lwyddodd gweithredoedd y busnes sydd wedi eu seilio yng Nghymru i werthu unrhyw wasanaethau amgylcheddol?

**Allforion:**

a) Dewiswch hyd at 5 prif nwydd neu wasanaeth yr oeddech wedi eu gwerthu neu eu hallforio (y tu allan i'r DU) yn 2021
b) Nodwch gwerth (£) ar gyfer pob un o'r 5 prif nwydd a'u hallforiwyd ar gyfer 2021
c) Dewiswch hyd at 5 o'r prif gwledydd y tu allan i'r DU ar gyfer allforion yn 2021
d) Nodwch gwerth (£) ar gyfer pob un o'r cyrchfannau allforio hyn yn 2021

## *3. Pryniannau & mewnforion*

a) Nodwch os yw'r busnes wedi prynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau yn 2021
b) Nodwch gyfanswm y gwerthoedd (£) ar gyfer prynu nwyddau, prynu gwasanaethau a chyfanswm pryniannau yn 2021

**Nwyddau:**

a) Dewiswch y wlad wreiddiol ar gyfer nwyddau a brynwyd yn 2021 (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y byd)
b) Nodwch gwerth (£) ar gyfer y nwyddau a brynwyd yn 2021 o bob lleoliad a ddewiswyd uchod (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y Byd)
c) Os oedd y busnes wedi prynu nwyddau o weddill y DU ar gyfer 2021, dewiswch o ba leoliadau yn y DU y daethant ohonno (Lloegr / Yr Alban / Gogledd Iwerddon) a gwerth (£) pryniannau ar gyfer pob un

**Gwasanaethau:**

a) Dewiswch y wlad wreiddiol ar gyfer gwasanaethau a brynwyd yn 2021 (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y byd)
b) Nodwch gwerth (£) y gwasanaethau a brynwyd yn 2021 ar gyfer pob lleoliad a ddewiswyd uchod (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y Byd)
c) Os prynwyd y busnes gwasanaethau oddi gweddill y DU ar gyfer 2021, dewiswch o ba leoliadau yn y DU y daethant ohonno (Lloegr / Yr Alban / Gogledd Iwerddon) a gwerth (£) pryniannau ar gyfer pob un.

**Mewnforion:**

a) Dewiswch hyd at 5 o'r prif nwyddau neu'r gwasanaethau a fewnforiwyd (o'r tu allan i'r DU) yn 2021
b) Nodwch gwerth (£) ar gyfer y 5 prif mewnforion yn 2021
c) Dewiswch hyd at 5 o'r prif gwledydd y fewnforiwyd ohonno y tu allan i'r DU 2021
d) Nodwch gwerth (£) ar gyfer pob un o'r lleoliadau mewnforio hyn yn 2021

**Rheolau tarddiad**

a) Ydych chi'n defnyddio tariffau ac/neu a rheolau tarddiad ffafriol wrth allforio y tu allan i'r DU?
b) Pam nad ydych chi'n defnyddio tariffau ac/neu rheolau tarddiad ffafriol wrth allforio y tu allan i'r DU?

## *4. Sylwadau terfynol a manylion cyswllt*

a) A hoffech chi ychwanegu unrhyw wybodaeth i esbonio eich data ar gyfer 2021?
b) Faint o amser wnaeth eich gymryd a faint mae wedi'i gostio i chi lenwi'r holiadur hwn yn eich barn chi?
c) Cadarnhewch os ydych yn hapus i gael eich ail-gysylltu am yr astudiaeth hon a/neu ar gyfer unrhyw ymchwil ddilynol